## YR ATODLEN

### Tanwyddau Awdurdodedig

**58.** Homefire Ovals (R) a weithgynhyrchir gan CPL Fuels Ireland, Foynes Briquetting Works, Foynes Port, Foynes, Co. Limerick, Iwerddon—

(a) a gyfansoddir o ronynnau glo caled (sef tua 50 i 75% o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (sef tua 20 i 45% o'r cyfanswm pwysau), glo meddal (sef tua 5 i 17% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr organig neu rwymwr o driagl ac asid (sef gweddill y pwysau);

(b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rholio-wasgu a thrin â gwres o hyd at tua 300°C;

(c) sy'n frics glo ar siâp gobennydd wedi eu marcio â hicyn ar ffurf dwy linell gyfochrog sy'n ymestyn yn lledredol o amgylch y fricsen;

(d) sy'n pwyso 130 gram y fricsen ar gyfartaledd; ac

(e) nad yw mwy na 2% o gyfanswm eu pwysau yn sylffwr.